# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 4**

PWERAU YMCHWILIO ACC

**PENNOD 5**

PWERAU YMCHWILIO PELLACH

### 112 Pŵer i gopïo dogfennau a mynd â dogfennau ymaith

(1) Pan fo ACC yn archwilio dogfen neu pan gyflwynir dogfen gan berson, caiff ACC wneud copïau o'r ddogfen neu gymryd dyfyniadau ohoni.

(2) Pan fo ACC yn archwilio dogfen neu pan gyflwynir dogfen gan berson, caiff ACC—

(a) mynd â'r ddogfen ymaith ar adeg resymol, a

(b) cadw'r ddogfen am gyfnod rhesymol,

os ymddengys i ACC bod angen gwneud hynny.

(3) Pan fo ACC yn mynd â dogfen ymaith, rhaid i ACC ddarparu yn ddi-dâl—

(a) derbynneb ar gyfer y ddogfen, a

(b) copi o'r ddogfen,

os gofynna'r person yr oedd y ddogfen yn ei feddiant, neu a oedd â phŵer dros y ddogfen, pan gyflwynwyd neu pan archwiliwyd hi.

(4) Nid yw mynd â dogfen ymaith o dan is-adran (2)(a) i'w ystyried fel torri unrhyw hawlrwym a hawlir ar y ddogfen.

(5) Pan fo dogfen yr aed â hi ymaith o dan is-adran (2)(a) yn cael ei cholli neu ei niweidio cyn ei dychwelyd, mae ACC yn agored i ddigolledu perchennog y ddogfen am unrhyw

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

dreuliau yr aed iddynt yn rhesymol wrth gael dogfen arall yn ei lle neu wrth ei hatgyweirio.

(6) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at ddogfen yn cynnwys copi o’r ddogfen.